Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cynllun Ieithoedd Swyddogol:
Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Mehefin 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cynllun Ieithoedd Swyddogol:
## Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Mehefin 2021



# Cynnwys

**Rhagair** ........ **7**

**Ein Perfformiad** ........ **8**

Ein huchelgais, ein hymrwymiad a'n gwerthoedd. ........ 9

**Safonau Gwasanaeth** ........ **10**

Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth ........ 11

Rhannu Arbenigedd ........ 12

**Gwybodaeth Ystadegol** ........ **13**

Recriwtio ........ 13

Busnes y Senedd ........ 14

Trafodion ........ 15

Pwyllgorau ........ 16

**Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun** ........ **19**

Thema 1: Recriwtio ........ 19

Thema 2: Sgiliau Iaith ........ 19

Thema 3: Cynllunio Ieithyddol ........ 20

Thema 4: Trafodion ........ 20

Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad ........ 21

**Monitro a Chydymffurfio** ........ **24**



# Rhagair

## Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol olaf ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Senedd.

Ein bwriad ar gyfer y flwyddyn hon oedd i sicrhau ein bod wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd ar ddechrau'r Pumed Senedd a dechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer y Chweched Senedd.

Mae llawer o'n gwaith eleni hefyd wedi canolbwyntio ar ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol, sef yn rhithwir, a sicrhau bod Senedd Cymru yn gallu parhau i ddeddfu ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a hynny ar adeg mor unigryw.

Gyda dechrau cyfnod yr adroddiad hwn, daeth y cyfyngiadau ar symud i rym, ac yn wir, roedd Senedd Cymru eisoes ymysg y gwledydd cyntaf yn rhyngwladol i gynnal cyfarfod llawn cwbl ddwyieithog yn rhithwir. Ar hyd y flwyddyn, mae sefydliadau o Gymru a thu hwnt wedi ymgysylltu â ni am gyngor ac arweiniad ac mae'n destun balchder ein bod, unwaith eto ar flaen y gad ym maes technoleg a gwasanaethau dwyieithog. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein profiad diweddar i lywio ein gwaith wrth ddatblygu gwasanaethau dwyieithog sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Heb os, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol i bawb. Mae'r ffaith ein bod wedi parhau i weithredu trwy symud ein holl waith i blatfformau ar-lein a hynny heb golli'r gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ddiofyn yn dyst i'r ffaith ein bod yn sefydliad dwyieithog yng ngwir ystyr y gair. Yn sicr, mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn ddiofyn ac yn ddieithriad yn rhan annatod o'n meddylfryd fel sefydliad. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn parhau i arwain trwy esiampl ac i osod rhagoriaeth fel ein nod bob amser.



**Rhun ap Iorwerth**
**Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol**

**PARCH**

Rydym yn gynhwysol, ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol

**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru

**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

**UN TÎM** YDYM NI

# Ein Perfformiad

## Ein huchelgais, ein hymrwymiad a'n gwerthoedd.

Ein huchelgais yw dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r ddwy iaith neu'r naill iaith swyddogol neu'r llall, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.

Rydym yn falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud dros gyfnod y pumed Senedd, ynghyd â'r ffaith ein bod bellach yn cael ein cydnabod fel corff gwirioneddol ddwyieithog. Mae ein safonau uchel a'n hymagwedd ymarferol at ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf a hynny yn ddiofyn yn gosod esiampl i sefydliadau eraill. Ni fyddai wedi bod yn bosibl i gyrraedd y nod heb arweiniad cryf gan Gomisiwn y Senedd, y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain,.. Mae ein gwerthoedd, a'r ffordd rydym yn datblygu ac yn rhoi strategaethau a pholisïau ar waith yn adlewyrchu statws cyfartal ein dwy iaith swyddogol.

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Wrth symud tua'r Chweched Senedd, bydd angen cynnal y safonau a'r disgwyliadau uchel hynny, a sicrhau nad ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau. Bydd aelodau'r Chweched Senedd yn ein dal i gyfrif ar ran pobl Cymru.

# Safonau Gwasanaeth

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau dilynol yn anochel wedi arwain at newid yn y ffordd rydym yn gweithio. Symudodd y Senedd yn gyflym iawn i fformat rhithwir, ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu lleddfu, i fformat hybrid. Mae'r holl Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn yn gweithio o'u cartrefi ar hyn o bryd.

O ran darparu gwasanaethau dwyieithog, roedd ein gwaith cynllunio ar gyfer Parhad Busnes yn golygu ein bod mewn sefyllfa gref i allu parhau i ddarparu ein gwasanaethau dwyieithog, a'n bod yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth rithwir yn gyflym ac yn esmwyth.

Y Senedd oedd un o'r deddfwrfeydd cyntaf i gynnal cyfarfodydd llawn rhithwir gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd o'r cychwyn cyntaf. Defnyddiwyd Senedd Cymru fel astudiaeth achos yn Nodyn Cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar Gynnal Cyfarfodydd Fideo Dwyieithog ac rydym yn parhau i gynghori sefydliadau ledled Cymru ar ddarparu cyfieithu ar y pryd fel rhan o drafodion rhithwir. O dro i dro, ni fu modd darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau penodol oherwydd natur gyfrinachol trafodaethau a phryderon ynghylch diogelwch y platfform digidol oedd ar gael bryd hynny. Fodd bynnag, mae'r feddalwedd wedi'i huwchraddio yn ddiweddar, sy'n cynnig mwy o sicrwydd o ran diogelwch ar-lein. Mae hynny wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl y galw. Defnyddiwyd system Risg a Sicrwydd Comisiwn y Senedd i gofnodi camau gweithredu a lliniaru, ac i fonitro a rhoi sicrwydd ar y mater hwn ar bob lefel.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae sicrhau darpariaeth ddwyieithog a hynny yn ddiofyn wedi bod wrth wraidd unrhyw waith i ddatblygu gwasanaethau newydd neu i addasu gwasanaethau. Lle na fu'n bosibl sicrhau darpariaeth ddwyieithog, gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod modd i ddefnyddwyr ddewis y naill iaith swyddogol neu'r llall. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi bod yn monitro ein gwasanaethau dwyieithog ac yn cynghori cydweithwyr ar draws y Senedd. Ar yr adegau prin pan nad oedd yn bosibl yn ymarferol i ni gyrraedd y safonau a

amlinellwyd yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, cafodd y digwyddiad ei gofnodi, ynghyd ag unrhyw gamau lliniarol a gymerwyd er mwyn sicrhau na fyddai'r un sefyllfa yn codi eto.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi bod yn gweithio ar baratoadau ar gyfer y Chweched Senedd. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Penaethiaid Gwasanaeth, rhai Cyfarwyddwyr a Penaethiaid Staff y Grwpiau er mwyn deall pa elfennau o'n darpariaeth ddwyieithog sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, ac i edrych ar feysydd lle gellir gwella. Mae' Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft eisoes yn yr arfaeth ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd angen ymgynghori ar y Cynllun newydd a chytuno arno cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad. Mae'r tîm hefyd wedi adolygu ein darpariaeth hyfforddiant sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth yn parhau i fod yn hyblyg ac yn bwrpasol. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y misoedd nesaf.

## Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth

Er mwyn sicrhau bod modd i Aelodau a'u Staff Cymorth weithio'n effeithiol yn eu dewis iaith swyddogol, mae'n holl bwysig ein bod yn deall eu hanghenion a'u dymuniadau. Eleni, gyda'r holl newidiadau y bu'n rhaid eu cyflwyno a hynny ar fyr rybudd, mae canlyniadau Arolwg Boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth wedi rhoi gwybodaeth i ni am yr elfennau sydd wedi gweithio'n dda, yn ogystal ag unrhyw feysydd y mae angen i ni edrych arnynt o'r newydd. Holwyd y ddau grŵp am y cymorth cyffredinol a ddarparwyd iddynt er mwyn ymgymryd â gwaith yn eu dewis iaith. Roedd y canlyniadau ychydig yn is na'r arolwg a gynhaliwyd yn 2019, fodd bynnag roedd yr adborth ar y cyfan yn parhau yn galonogol. Aethpwyd i'r afael ag unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaed a phan yn bosibl, cafwyd trafodaeth gyda'r sawl oedd wedi cyflwyno'r sylwadau er mwyn cytuno ar unrhyw gamau y byddai modd eu cymryd i wella ein darpariaeth.

Yn ogystal â'r arolwg ffurfiol o foddhad, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn monitro unrhyw adborth sy'n dod i law trwy ddulliau anffurfiol. Gall hyn gynnwys adborth trwy dimau integredig y pwyllgorau, y grŵp gweithredol ar gyfer Staff Cymorth, gwaith y Cyfeillion Cyswllt ac unrhyw gyfleoedd eraill pan fyddwn yn dod i gysylltiad ag Aelodau neu Staff Cymorth.

## Rhannu Arbenigedd

Mae’r cyfyngiadau ar symud wedi golygu nad yw wedi bod yn bosibl i ni gwrdd wyneb yn wyneb â chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt eleni. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth i nifer fawr o gyrff. Eleni, buom yn cynghori lawer o gyrff ar faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog yn rhithwir. Mae’r tîm cyfieithu ar y pryd a’r tîm TG&Ch ar y cyd wedi cynghori ar gyfieithu ar y pryd ar blatfformau digidol, a defnyddiwyd Senedd Cymru fel astudiaeth achos gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei Nodyn Cyngor ar gyfarfodydd rhithwir. Bu’r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn rhannu ein profiadau mewn cynhadledd ar-lein o dan y teitl Gofid neu Gyfle - Y Gymraeg yn y ‘Normal Newydd’ a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe fis Mawrth eleni. Cyfrannodd y Tîm Ieithoedd Swyddogol i adolygiad Llywodraeth Cymru o’r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer staff hefyd.



# Gwybodaeth Ystadegol

Trwy gydol y Pumed Senedd, buom yn casglu gwybodaeth ystadegol er mwyn ein cynorthwyo i flaenoriaethu ein gwaith o flwyddyn i flwyddyn. Bydd adolygu'r wybodaeth yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu gwaith ac adnoddau a phennu amcanion ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd yn ddefnyddiol medru cymharu'r tueddiadau wrth i'r Chweched Senedd ymsefydlu.

## Recriwtio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r pandemig wedi ein gorfodi i newid ein dulliau recriwtio. Ni fu'n bosibl cynnal cyfweliadau nac asesiadau wyneb yn wyneb ers dros flwyddyn. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i gynnig cyfweliadau i ymgeiswyr yn eu dewis iaith, ac wedi dod o hyd i ffyrdd o brofi sgiliau iaith ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio. Bu'n rhaid newid y broses ychydig o ran asesiadau Cymraeg lefel Cwrteisi, ond mae'r tîm yn treialu dulliau newydd o asesu'n rhithwir. Bydd y gwaith ar asesiadau yn parhau. Yn ystod y flwyddyn hefyd, mae'r Senedd wedi mabwysiadu system recriwtio ar-lein newydd. Yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae'r system yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am swyddi yn eu dewis iaith, ac i ddewis ym mha iaith yr hoffent ymgysylltu â ni.

**Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch.**

**Allanol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 54 | 35 | | 19 |
| 2019-20 | 49 | 28 | 3 | 18 |
| 2020-21 | 21 | 14 | | 7 |

**Mewnol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 18 | 11 | | 7 |
| 2019-20 | 22 | 16 | 1 | 5 |
| 2020-21 | 18 | 12 | | 6 |

**Cyfanswm**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 72 | 46 | | 26 |
| 2019-20 | 71 | 44 | 4 | 23 |
| 2020-21 | 39 | 26 | | 13 |

**Canrannau**

| | Swyddi lefel cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|---|
| 2018-19 | 64% | | 36% |
| 2019-20 | 62% | 6% | 32% |
| 2020-21 | 67% | | 33% |

* Defnyddir cyfuniad o sgiliau pan fydd gofyn am sgiliau llafar ar lefel 1-5 mewn swydd, ond nid oes angen sgiliau ysgrifenedig uwch na chwrteisi.

## Busnes y Senedd

Ar ddechrau'r flwyddyn bu gostyngiad anorfod yn niferoedd cyfarfodydd busnes y Senedd wrth i ni symud i blatfformau rhithwir a dod i'r arfer â gweithio o bell. Fodd bynnag, nid yw'r gallu i gyflwyno busnes, neu gosod dogfennau yn newis iaith yr Aelod wedi newid.

Nid yw'r ffigyrau isod yn cynnwys cynigion a gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gan eu bod bob amser yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

**Tabl 2: Canran y busnes a gyflwynwyd yn Gymraeg fesul eitem**

| Blwyddyn | Cwest Llafar | Cwest Ysg | Cynigion | Gwelliannau | Dat Barn | Cwest Amserol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 13% | 7% | 2% | 7% | 2% | 10% |
| 2018-19 | 11% | 10% | 3% | 14% | 5% | 15% |
| 2019-20 | 8% | 8% | 4% | 4% | 0% | 9% |
| 2020-21 | 8% | 6% | 2% | 0% | 5% | 16% |

**Tabl 3: Dogfennau a osodwyd**

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau **na** osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 431 | 109 | 25% |
| 2018-19 | 1187 | 310 | 26% |
| 2019-20 | 808 | 141 | 17.5% |
| 2020-21 | 1442 | 98 | 7% |

Mae dogfennau a baratowyd gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Eleni, gosodwyd un ddogfen uniaith Saesneg gan Gomisiwn y Senedd, a dogfen yn cynnwys cyngor cyfreithiol gan drydydd parti a gomisiynwyd ar ran y Pwyllgor Safonau oedd y ddogfen honno.

## Trafodion

Fel y soniwyd uchod, bu ychydig o leihad yn swmp busnes y Senedd wrth i ni symud i blatfformau rhithwir. Fodd bynnag, cyn cyflwyno unrhyw systemau a meddalwedd ar gyfer cyfarfod yn rhithwir sicrhawyd bod modd darparu cyfieithu ar y pryd yn ddiofyn a bod modd i Aelodau wneud cyfraniadau yn eu dewis iaith. Mae'r holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ar gael yn ddwyieithog ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar gael i gynorthwyo Aelodau sy'n dymuno gwneud cyfraniadau yn Gymraeg yn ôl y gofyn. Nid yw'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf, heblaw am y ffaith nad yw'r ddarpariaeth yn digwydd wyneb yn wyneb, ond yn hytrach ar-lein

**Tabl 4: Canran y cyfraniadau Cymraeg**

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2017-18 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2018-19 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2019-20 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Trafodion y Cyfarfod Llawn | 20% | 18% | 16% | 23% |
| Trafodion Pwyllgorau | 8% | 7% | 6% | 9% |

## Pwyllgorau

Mae sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau yn eu dewis iaith yn hanfodol. Caiff papurau pwyllgor a baratoir gan Gomisiwn y Senedd eu paratoi yn ddwyieithog, ac mae timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i dystiolaeth a phapurau gan drydydd parti fod yn ddwyieithog hefyd. Mae'r trefniadau unigryw ar gyfer briffio aelodau pob pwyllgor, gan gynnwys pryd ac ar ba ffurf y caiff y papurau briffio eu darparu, wedi parhau. Caiff y trefniadau hyn eu seilio ar anghenion a dymuniadau aelodau'r pwyllgor ac mae'r timau integredig yn adolygu'r trefniadau o dro i dro, neu pan fydd aelodaeth pwyllgor yn newid. Fel rhan o'r gwaith o sefydlu'r pwyllgorau yn y Chweched Senedd, bydd yn hanfodol bod y timau integredig yn trafod dymuniadau'r aelodau o ran deunydd briffio a gweithio yn eu dewis iaith gyda'r aelodau unigol.

**Tabl 5: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg yn unig**

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau | 13 | 51 | * | * |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Aelodau unigol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 9 | 21 | 22 | 13 |

**Tabl 6: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Saesneg yn unig**

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 40** | 96** | 13** | 25*** |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau | 438 | 628 | * | * |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 23 | 52 | 13 | 37 |
| Llywodraeth Cymru | 174 | 263 | 218 | 194 |
| Aelodau unigol | 3 | 3 | 5 | 0 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 659 | 727 | 804 | 587 |

* Nid yw'r data ar ymatebion i ymgyngoriadau bellach yn cael ei gadw oherwydd newid yn y dull o gyhoeddi'r ymatebion

** Ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg. Yn unol â'r Cynllun, caiff unrhyw ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth gan unigolion neu sefydliadau eu drafftio a'u cyhoeddi yn newis iaith y sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth gennym.

*** Cyfuniad o bapurau technegol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a llythyrau gan gadeiryddion Pwyllgorau yn newis iaith y derbynnydd a gyhoeddwyd er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor.

**Tabl 7: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn ddwyieithog**

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 1172 | 781 | 864 | 1149 |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau | 218 | 131 | * | * |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 8 | 7 | 4 | 9 |
| Llywodraeth Cymru | 580 | 993 | 898 | 1599 |
| Aelodau unigol | 6 | 11 | 4 | 0 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 337 | 361 | 243 | 218 |

# Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun

## Dros y flwyddyn ddiwethaf, cychwynnodd y broses o adolygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Senedd.

Rydym wedi cwrdd gyda'r Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, penaethiaid y gwasanaethau unigol rhai Cyfarwyddwyr a Penaethiaid Staff y Grwpiau i drafod yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r meysydd hynny y mae angen i ni eu blaenoriaethu ar gyfer y Chweched Senedd. Yn ogystal, adolygwyd ein cynnydd ar y themâu a bennwyd ar gyfer cyfnod y cynllun.

### Thema 1: Recriwtio

Gyda'r system recriwtio ar-lein bellach yn weithredol, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi dechrau ar y broses o edrych ar ein dulliau asesu sgiliau iaith. Yn sgil y ffaith nad yw wedi bod yn bosibl ers dros flwyddyn i ni gynnal asesiadau sgiliau iaith wyneb yn wyneb fel rhan o'r broses recriwtio, penderfynwyd newid amseru'r asesiad Cymraeg lefel Cwrteisi. Mae'r tîm wedi datblygu asesiad rhithwir ar gyfer yr elfennau ynganu ac asesiad ar-lein ar gyfer yr elfennau eraill. Yn dilyn cyfnod o brofi, bydd yr asesiad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob asesiad Cymraeg lefel Cwrteisi. Yn yr un modd, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfle i ail edrych ar yr asesiadau sgiliau iaith ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau ar lefel 1-3. Bydd y gwaith yn parhau wrth i ni bennu amcanion a themâu ar gyfer Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd. Byddwn yn trafod gyda'r Tîm Arwain, y Bwrdd Gweithredol, staff y Comisiwn a'r Undebau Llafur cyn cyflwyno unrhyw newidiadau parhaol.

### Thema 2: Sgiliau Iaith

Mae symud i wasanaeth ar-lein a newidiadau staffio wedi cynnig cyfle i ni adolygu ein darpariaeth sgiliau iaith. Yn ystod y flwyddyn cychwynnwyd ar y gwaith o werthuso'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig hyfforddiant hyblyg wedi'i deilwra i anghenion y dysgwyr a'r Senedd. Bydd y gwait hwn yn parhau ar ddechrau'r Chweched Senedd. Wrth lunio'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd, bydd angen i ni adolygu ein systemau ar gyfer gosod targedau ar gyfer dysgwyr a darparu hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol ar gyfer rhannau penodol o'r sefydliad. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar gynorthwyo aelodau staff sydd wedi dysgu neu sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl

ond nad ydynt wedi defnyddio eu sgiliau yn y gweithle i adennill yr hyder i wneud hynny. Wrth i Aelodau'r Chweched Senedd a'u Staff Cymorth ymgynefino byddwn yn blaenoriaethu'r angen i ddeall eu hanghenion dysgu ac i ddatblygu hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol ar eu cyfer.

## Thema 3: Cynllunio Ieithyddol

Mae holl feysydd gwasanaeth y Senedd yn defnyddio eu cynlluniau iaith unigol i gynllunio eu capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf. Dros gyfnod y Pumed Senedd, ymwreiddiodd y system cynlluniau iaith gwasanaeth, ac mae gwasanaethau yn eu defnyddio wrth lenwi swyddi gwag. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, bydd angen adolygu'r cynlluniau iaith gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i fusnes neu systemau yn sgil yr etholiad cyffredinol. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir ymgorffori'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu strategaeth ar gyfer sicrhau bod gan staff y Senedd y sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn rhoi'r Cynllun ar waith. Ar hyn o bryd, mae'r strategaeth yn bodoli ar wahân i'r Cynllun ei hun, ond byddwn yn gweithio ar gyfuno'r ddwy ddogfen maes o law.

## Thema 4: Trafodion

Mae gwaith arloesol Comisiwn y Senedd o ran dwyieithrwydd a'r defnydd o dechnoleg yn ystod cyfnod Covid-19 wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Ar 1 Ebrill 2020, cynhaliwyd cyfarfod rhithwir cyntaf y Senedd yn gwbl ddwyieithog, gyda defnyddwyr yn rhydd i gyfrannu at a chlywed trafodion yn eu dewis iaith. Yn raddol cyflwynwyd rhagor o fusnes, a sefydlwyd amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau hefyd, a hynny yn rhithwir. Dros fisoedd y gwanwyn a'r haf, wrth i'r sefyllfa o ran cyfyngiadau wella, addaswyd y trefniadau i ganiatáu cyfarfodydd hybrid. Gyda chyfran o Aelodau yn bresennol yn y Siambr a'r gweddill yn ymuno ar-lein, roedd y ddarpariaeth eto yn cynnig dewis iaith i'r holl gyfranogwyr yn ddiofyn. Buom yn ymgysylltu â sefydliadau o bedwar ban Cymru a thu hwnt i drafod ein gwaith, ac rydym wedi cynnig cyngor ar gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar-lein i nifer o gyrff gan gynnwys:

- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Môn;
- Prifysgol Bangor;

- Prifysgol Aberystwyth;
- Pleidiau Gwleidyddol o fewn y Senedd;
- Swyddfa'r Comisiynydd Iaith;
- Cyngor Sir Gâr;
- Y Gymdeithas Ddysgedig;
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru;
- Ysgolion;
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
- NHS Wales Health Collaborative
- Amgueddfa Cymru;
- Cyngor Rhondda Cynon Taf;
- Llywodraeth Cymru;
- Senedd yr Alban

## Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

### Ymwybyddiaeth

Yn ystod y flwyddyn, er gwaetha'r ffaith ein bod i gyd yn gweithio yn ein cartrefi, rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys Diwrnod Shwmae - Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Gŵyl Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Gwnaed defnydd helaeth o'r cyfleuster *Yammer* a Mewnrwyd y staff a'r Aelodau ar system y Senedd. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â'r rhwydweithiau staff i ddarparu deunyddiau a chyngor. Cydweithiodd y tîm ar gasgliadau o adnoddau i gynorthwyo gydag iechyd meddwl ac addysgu yn y cartref. Hefyd cafwyd ymgyrch i annog cydweithwyr i ymgysylltu â'i gilydd er mwyn osgoi teimladau o unigrwydd a gwella eu hiechyd meddwl trwy ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae unrhyw gynlluniau ar gyfer gweithgareddau i'r holl staff neu i grwpiau yn cynnig cyfle i'r holl gyfranogwyr ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol.


Pery'r gwaith o sicrhau bod pob aelod newydd o staff (boed yn staff Comisiwn y Senedd, neu yn staff cymorth) yn deall ein hethos fel sefydliad dwyieithog. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynigiwyd sesiynau cynefino rhithwir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r  Saesneg.. Oherwydd y pandemig, ni chafwyd cyfle i gwblhau'r fideo ymwybyddiaeth newydd ar gyfer staff y Senedd. Bydd y gwaith hwn yn ailgychwyn wedi i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd gael ei gytuno. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio gyda'r tîm sy'n cynllunio ar gyfer trosglwyddo o'r Pumed i'r Chweched Senedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gwbl ddwyieithog a bod Aelodau newydd yn ymwybodol o ofynion y Cynllun, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt weithio yn eu dewis iaith swyddogol.

**Technoleg**

Mae llawer o'n gwaith dros y flwyddyn wedi bod yn seiliedig ar dechnoleg. Gan nad oedd yn bosibl cwrdd wyneb yn wyneb o gwbl, bu'n rhaid i Senedd Cymru ddatblygu dulliau rhithwir o barhau i ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal â chyfarfod yn rhithwir a sicrhau bod modd i Aelodau ymgymryd â'u dyletswyddau yn eu dewis iaith, bu'n rhaid datblygu elfennau o'r newydd gan gynnwys ap er mwyn caniatáu i Aelodau bleidleisio yn ystod trafodion. Mae ymgysylltu â phobl Cymru bob amser wedi bod yn elfen bwysig o waith Senedd Cymru. Roedd ein hystâd, ac yn benodol adeiladau'r Senedd a'r *Pierhead* yn rhan annatod o'r gwaith. Gyda'r ystâd ynghau, roedd angen meddwl am ffyrdd eraill o ddarparu gwybodaeth am ein hadeiladau, a'n gwaith. Datblygwyd teithiau rhithwir sy'n arwain y defnyddiwr o amgylch yr adeiladau gyda chyfle i ddysgu mwy am ardaloedd penodol, a hynny i gyd yn ddwyieithog wrth gwrs.

Un o'r prif newidiadau i'r sefydliad dros y flwyddyn oedd cyflwyno ein gwefan newydd. Mae'r wefan yn ganlyniad i sawl blwyddyn o waith caled i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n addas ac yn bodloni anghenion ein cyfran ddeiliaid. Un elfen bwysig o'r gwaith cynllunio ar gyfer y wefan oedd mynd i'r afael â'r broblem oedd yn codi o dro i dro bod tudalennau Saesneg yn ymddangos ar ochr Gymraeg y Wefan. Dros y blynyddoedd rydym wedi derbyn nifer o gwynion ar y mater hwn. Ar y cyfan, camgymeriad dynol ar ran y sawl oedd yn cyhoeddi'r wybodaeth ar y wefan oedd wrth wraidd y broblem. Ar gyfer y wefan newydd, penderfynwyd ar system sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n cyhoeddi greu cynnwys yn y ddwy iaith, ac yn ei gwneud yn haws i wirio'r ddwy fersiwn ochr yn ochr. Ers i'r wefan newydd gael ei lansio, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch cynnwys yn yr iaith anghywir ar dudalennau, na lincs yn arwain at gynnwys yn yr iaith anghywir.

Mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi cadw mewn cysylltiad gyda *Microsoft* er mwyn clywed y diweddaraf am unrhyw ddatblygiadau ym maes technoleg iaith. Yn benodol, rydym wedi gofyn am ddiweddariad i feddalwedd *Microsoft Teams* a fyddai'n galluogi i ni ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Byddai hyn yn mynd i'r afael â nifer o'r pryderon ynghylch diogelwch platfformau digidol eraill sydd ar gael. Byddwn yn parhau i gynnal ein perthynas â *Microsoft* yn ystod y Chweched Senedd, ac yn chwilio am ffyrdd o wneud defnydd rhagweithiol ac arloesol o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog.



# Monitro a Chydymffurfio

## Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol a'r Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn cofnodi unrhyw gwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun.

Yn ystod ein gwaith yn adolygu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Pumed Senedd, cawsom adborth oedd yn awgrymu bod angen i'r Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd gynnwys gwybodaeth glir ar y broses ar gyfer gwneud cwyn. Felly, wrth ddatblygu'r Cynllun newydd, byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth ar y drefn gwyno, a manylion cyswllt ar gyfer cynnig adborth ar ein gwasanaethau dwyieithog yn glir ac yn amlwg. Mae adborth boed yngadarnhaol, neu yn awgrymu newidiadau y gellir eu gwneud yn dra gwerthfawr, ac rydym yn ymrwymedig i ystyried pob sylw sy'n dod i lawr er mwyn dysgu a gwella.

Eleni, a hithau wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ein darpariaeth. Mae Fforwm Cyd-gysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi parhau i gwrdd i drafod materion yn ymwneud â'r Cynllun, ac mae prosesau mewnol eraill ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hefyd yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r prosesau hyn wedi dangos ein bod ar adegau wedi methu â chyrraedd y safonau uchel sydd wedi eu gosod yn y Cynllun, neu wedi bod mewn perygl o fethu â chwrdd â disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r achosion hynny yn ymwneud â dau faes:

**Galluogi Aelodau i ddefnyddio eu dewis iaith mewn cyfarfodydd preifat a chyfrinachol**

Roedd holl drafodion ffurfiol, cyhoeddus y Senedd sy'n cael eu darlledu wedi eu cynnal ar blatfform digidol *Zoom*. Mae'r platfform yn ein galluogi i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn modd diofyn i bawb sy'n cymryd rhan. Roedd pryderon cyffredinol ynghylch seibr ddiogelwch y platfform ymysg llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Barnwyd mai doeth oedd peidio ddefnyddio'r platfform ar gyfer cyfarfodydd preifat neu gyfarfodydd oedd yn trafod materion cyfrinachol. Felly ar adegau bu'n rhaid i Aelodau gyfaddawdu o ran eu dewis iaith er mwyn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny. Fodd bynnag, yn dilyn uwchraddiad i *Zoom*, mae'r darpariaethau diogelwch bellach yn dderbyniol, sy'n golygu y gellir defnyddio'r platfform ar gyfer unrhyw gyfarfod pan fo galw am wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Fel y soniwyd uchod, defnyddiwyd system Risg a

Sicrwydd y Comisiwn i gofnodi a monitro'r sefyllfa, ac mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Risg a Sicrwydd wedi derbyn diweddariadau am y sefyllfa hefyd.

### Materion yn ymwneud ag Aelodau

Cafwyd ambell sylw am ein gwasanaethau dwyieithog trwy Arolwg Boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth. Fel rhan o'r arolwg, roedd modd i unigolion ddarparu eu manylion cyswllt fel bod modd i aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol gysylltu â nhw i drafod ymhellach. Trafodwyd sylwadau o'r fath gyda'r unigolyn a chofnodwyd adborth er mwyn dysgu gwersi. Rydym hefyd wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn ddienw a byddwn yn cyfeirio atynt wrth ddatblygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd.